

Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2026, 10:30-12:00 MS Teams

Yn bresennol

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Siân Gwenllïan AS, y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio (CMLGHP) - Cadeirydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Anthony Hunt (Arweinydd CLILC, Torfaen)
Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)
Y Cyng. Ben Callard (Sir Fynwy)
Y Cyng. Christopher Weaver (Caerdydd)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Simon Knolly (Castell-nedd Port Talbot)

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Llywodraeth Leol

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid, CLILC
Jane Thomas – a151 Cyngor Powys

Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)

Tracey Breheny – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Emma Smith – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Andrea Melvin – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Rhiannon Jones – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Jacob Squires – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Luke Nicholas – Cynghorydd Arbennig
Shona O'Shea – Ysgrifennydd Preifat

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Gary Prichard (Ynys Môn)

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Diolchodd y CMLGHP i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod. Croesawodd y Cynghorydd Ben Callard i'w gyfarfod Is-grŵp Cyllid cyntaf a chofnododd ei diolch

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 8 Gorffennaf 2026 - Cofnodion

i aelodau blaenorol yr Is-grŵp Cyllid – y Cynghorwyr Andrew Morgan, Paul Griffiths a Darren Price. Nodwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Mark Pritchard a'r Cyngorydd Gary Pritchard.

Eitem 2: Cylch Gorchwyl

2. Cyflwynodd y CMLGHP Bapur 1 (y Cylch Gorchwyl diweddaraf), gan dynnu sylw at y bwriad i ysgrifennu yn ffurfiol at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC) i ganfod a ydynt yn dymuno cadw eu cynrychiolaeth ar y grŵp. Gofynnwyd i'r unigolion a oedd yn bresennol a oeddent yn fodlon llofnodi'r cylch gorchwyl diwygiedig.
3. Cadarnhaodd y Cyngorydd Hunt ei fod yn cytuno ar safbwynt y Gweinidog o ran cynrychiolaeth PCC ar y Grŵp a chroesawodd yr ymrwymiad i gydweithio a nodwyd yn y cylch gorchwyl.
4. Nododd Jane Thomas fod gwall yn ei theitl swydd yn y cylch gorchwyl. Nid oedd unrhyw bwyntiau eraill yn ymwneud â chywirdeb a chadarnhaodd y grŵp eu bod yn fodlon i'r cylch gorchwyl gael ei lofnodi.

Eitem 3: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

5. Cytunwyd ar y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol heb sylwadau.

Eitem 4: Diweddariad CMLGHP

6. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar: Y Gyllideb Atodol Gyntaf, Gweithredu'r Ddeddf Digartrefedd a'r Gyllideb Garbon 3. Soniwyd am gyllid ar gyfer pwysau ADY ond cafodd y drafodaeth ei hatal tan Eitem 7 ar yr Agenda.
7. Diolchodd y Cyngorydd Hunt i'r Gweinidog am gydnabod y pwysau a'r ymrwymiad i atal ac ymyrryd yn gynnar. Rhoddodd ddwy enghraifft o raglenni atal yn ei Gyngor ym meysydd ieched a thai.
8. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol o arferion da mewn perthynas â digartrefedd a gofynnodd i'r aelodau roi gwybod iddi am unrhyw brosiectau ataliol yr oeddent yn dymuno tynnu sylw atynt.

Eitem 5: Adolygiad o'r Fformiwla

9. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem hon drwy fynegi ei diolchgarwch am y gwaith a wnaed yn y maes hwn gan swyddogion llywodraeth leol drwy'r Is-grŵp Dosbarthu.
10. Tynnodd y Gweinidog sylw at yr ymrwymiad yn y manifest o adolygu'r fformiwla ariannu a'i hymrwymiad i barhau i weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol.
11. Cyflwynodd Simon Edwards y papur, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r adolygiad fformiwla ariannu. Amlinellodd y gwaith i ddiweddarau'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r fformiwla, gan gynnwys cynnydd ar addysg a

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 8 Gorffennaf 2026 - Cofnodion

gwasanaethau cymdeithasol personol. Tynnodd sylw hefyd at yr argymhellion sy'n ymwneud â chwmpas yr adolygiad, yr egwyddorion sy'n sail i'r gwaith, a'r potensial ar gyfer ystyried ymhellach ddulliau ehangach o ddosbarthu cyllid.

12. Roedd y Cyngorydd Stewart yn cefnogi defnyddio'r data diweddaraf o fewn y fformiwla. Tynnodd sylw at bryderon ynghylch unrhyw gyfaddawd a welir rhwng prinder ac amddifadedd a phwysleisiodd na ddylid mynd i'r afael ag unrhyw angen ychwanegol a nodwyd yn yr adolygiad drwy ailddosbarthu cyllid presennol. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd trefniadau pontio priodol.
13. Adleisiodd y Cyngorydd Burnett sylwadau'r Cyngorydd Stewart ynglŷn â defnyddio'r data diweddaraf, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y data cywir yn cael eu defnyddio, a bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn cael eu deall yn llawn.
14. Cytunodd y Cyngorydd Batrouni hefyd â diweddarau'r eitemau data ond cwestiynodd y llinell ym mharagraff 16 a oedd yn awgrymu'r posibilrwydd o roi 'llai o bwyslais ar ailddosbarthu a chydabod angen' a nodi pwysigrwydd poblogaeth fel sbardun allweddol o fewn y fformiwla bresennol. Gofynnodd hefyd pryd y gallai'r grŵp weld y pwysoliadau.
15. Eglurodd Judith Cole nad oedd paragraff 16 yn nodi trywydd cadarn ond mai'r bwriad oedd dangos yr ystod o ddulliau y gellid eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad ehangach o fethodolegau neu egwyddorion dosbarthu. Cadarnhaodd Judith hefyd y byddai enghreifftiau yn cael eu cynhyrchu i adlewyrchu unrhyw bwysoliadau diwygiedig pan fyddant yn hysbys.
16. Awgrymodd Jon Rae y gallai paragraff 14 (egwyddorion) gydnabod yn benodol bwysigrwydd sicrhau bod data o fewn y fformiwla yn parhau i fod yn gyfredol. Argymhellodd fod DSG yn dod o hyd i eiriad.
17. Nododd y Gweinidog y dylai tegwch barhau i fod yr egwyddor gyffredinol sy'n sail i'r fformiwla. Croesawodd y drafodaeth, gan gynnwys y materion ehangach a godwyd, a nodwyd bod yr aelodau yn cefnogi'r holl argymhellion yn y papur.

Eitem 6: Protocol Grantiau

18. Cadarnhaodd y Gweinidog ymrwymiad y Llywodraeth i adnewyddu a pharhau â'r gwaith partneriaeth a nodir yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol; gan gynnwys cynigion ar gyfer protocol Grantiau ffurfiol. Nododd y Gweinidog ei bod yn awyddus i gael barn yr aelodau ar y papur cyn cael trafodaeth bellach gyda'i chyd-aelodau Cabinet.
19. Cyflwynodd Emma Smith y papur gan ddweud ei fod wedi'i ddrafftio mewn cydweithrediad â Jon Rae o CLILC. Soniodd hefyd fod y papur wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n galluogi cymhwyso hyblygrwydd i reoli amgylchiadau gwahanol.

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 8 Gorffennaf 2026 - Cofnodion

20. Crynhodd Emma y cynnydd hyd yma o ran rhesymoli grantiau, gan gynnwys gostyngiad mewn grantiau wedi'u neilltuo o tua 100 i tua 80, gostyngiad mewn baich gweinyddol a chynnydd mewn hyblygrwydd mewn rhai meysydd. Cadarnhaodd fod y protocol drafft yn rhoi fframwaith cyffredinol i hyrwyddo cynnydd pellach.
21. Croesawodd y Cynghorydd Hunt brif bwyntiau'r papur a'r cynnydd tuag at alluogi mwy o ffocws ar ganlyniadau a llai o amser ar y broses. Gofynnodd pa waith oedd wedi'i wneud ar strategaethau ymadael ar gyfer grantiau presennol. Soniodd hefyd am yr angen i ymgynghori â staff pan fydd grantiau'n dod i ben – sydd ddim bob amser yn bosibl os nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi rhybudd digonol.
22. Cadarnhaodd Emma fod swyddogion wedi bod yn fwy cadarn o ran cynlluniau ymadael ar gyfer grantiau newydd – gan sicrhau bod pwyntiau adolygu yn cael eu hychwanegu. Cadarnhaodd fod grantiau hŷn yn fwy problematig a bod angen defnyddio dull fesul achos i geisio annog uno grantiau neu fwy o hyblygrwydd i delerau ac amodau.
23. Awgrymodd y Cynghorydd Hunt fod trafodaeth ar ganlyniadau yn well na thrafodaeth ar amodau grant.
24. Nododd y Cynghorydd Burnett y gall y cyfyngiadau adrodd ar gyfer grantiau cymharol fach fod yn feichus ac yn gostus. Dywedodd mai'r symlaf yw'r mecanwaith adrodd, y mwyaf ystwyth y gall awdurdodau fod wrth gyflawni canlyniadau.
25. Gofynnodd Emma i'r grŵp am unrhyw enghreifftiau lle mae newidiadau neu delerau ac amodau grant newydd wedi gweithio'n dda. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hunt y byddai'n awyddus i gael y drafodaeth honno.
26. Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am y sylwadau adeiladol a chadarnhaodd y byddai'r drafodaeth ar y testun hwn yn parhau gyda chydweithwyr y Cabinet.

Eitem 7: Diweddariad CLILC

27. Gofynnodd y Gweinidog i'r Cynghorydd Burnett gyflwyno'r papur ar bwysau ADY, gan ddweud ei bod yn gwerthfawrogi bod hwn yn faes sy'n achosi pryder mewn llywodraeth leol.
28. Siaradodd y Cynghorydd Burnett am faterion cysylltiedig ag ADY sy'n wynebu llywodraeth leol. Cadarnhaodd fod angen cyd-ddealltwriaeth nad yw'r broblem yn wahanol i'r broblem a brofir yn Lloegr – ond roedd gan Gymru ddull gwahanol o ddelio â'r pwysau.
29. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod hi a'r Llywodraeth yn deall bod ffordd wahanol o ddelio â'r pwysau (o'i gymharu â Lloegr). Dywedodd y bydd y papur yn cael ei

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 8 Gorffennaf 2026 - Cofnodion

rannu â'i chyd-aelodau Cabinet a phwysleisiodd fod sgysiau ynghylch y gyllideb atodol yn parhau tan 15 Gorffennaf.

Eitem 8: Unrhyw Fater Arall

30. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i rai cyfarfodydd o'r Grŵp yn y dyfodol gael eu cynnal wyneb yn wyneb, ac nid bob amser yng Nghaerdydd.
31. Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r grŵp am eu cyfraniadau.